

# Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyhoeddus cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun, **09 Ionawr 2017** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

---

## Gweddi agoriadol

### **1-01/17: Presennol**

Cadeirydd Cyng. Robert Cadwalader

Cyng. William A Evans; Cyng. Phil Jones; Cyng. Henry Jones; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. Dafydd Lloyd; Cyng. Robert T Price; Cyng. Elizabeth Reagan; Cyng. Wayne T Roberts; Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Sian Williams. Clerc – Dr Catrin Jones.

Aelod o'r cyhoedd

### **2-01/17 Ymddiheuriadau:**

Cyng. Elizabeth George

### **3-01/17: Datgan diddordeb**

Cyngorydd William A Evans (eitem 19-01/17 c C16/1682/35/LL)

Cyngorydd Phil Jones (eitem 19-01/17 c C16/1682/35/LL)

Cyngorydd Dafydd Lloyd (eitem 19-01/17 b C16/1684/35/LL)

Cyngorydd Wayne T Roberts (eitem 19-01/17 c C16/1682/35/LL)

Cyngorydd Eirwyn Williams (eitem 7-01-b C16/1394/35/AM)

### **4-01/17: Cadarnhau cofnodion mis Tachwedd 2016**

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

### **5-01/17: Eitemau brys ac er gwybodaeth**

- **Un Llais Cymru.** Nodwyd bod gohebiaeth wedi dod i law yn gwahodd y Cyngor i ynuno yn y 100 mlynedd o gofio i'w gynnal ar 11 Tachwedd 2018, i goffa am ddiwedd y rhyfel Byd Cyntaf. Cytunodd y Cyngor i ystyried yn y cyfarfod nesaf.
- 

### **6-01/17: Gohebiaeth**

- Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Ymgynghoriad ynglŷn â newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru** –Nodwyd bod yr ymgynghoriad wedi ei lawnsio ar 8 Rhagfyr 2016 ac angen ymateb erbyn 3 Mawrth 2017. Byddai newid enw yn amodol ar basio Mesur Cymru a oedd gerbron Senedd y DU. Roedd yr ymgynghoriad wedi ei gylchredeg i aelodau'r Cyngor. Yn dilyn trafodaeth cytunodd y Cyngor yn gyffredinol bod pobl yn deall swyddogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru a bod enw sefydliad yn bwysig i egluro'r hyn y mae'n ei wneud. Os byddai y mesur yn cael ei basio, dymuniad Cyngor Criccieth oedd newid enw y Cynulliad i ***Senedd Cymru/Parliament of Wales***, ac felly y dylid newid teitl yr Aelodau i ***Aelod o Senedd Cymru/Member of the Parliament of Wales***.

- b. **Un Llais Cymru – Llywodraeth Cymru a Lluo Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC)** – Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi dechrau gwaith i lunio'r FfDC a fydd yn gynllun datblygu defnydd tir cenedlaethol. Byddai hwn yn disodli'r Cynllun Gofodol Cymru presennol ac yn nodi'r fframwaith gofodol ar gyfer defnyddio tir yng Nghymru dros yr ugain mlynedd nesaf. Maent yn cynnal Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau i'w cyflwyno erbyn 7 Mawrth 2017. Roedd yr ymgynghoriad wedi ei gylchredeg i aelodau'r Cyngor. Cytunwyd nad oedd yna brosiect cyfredol i'w gyflwyno ond y byddai hyn yn derbyn sylw y Grŵp Llywio maes o law.
- c. **Partneriaethau Llywodraeth Lleol – Polisi Etholiadau Cyngorau Cymunedau a Thref 2017 – Taflen Ymwybyddiaeth.** Nodwyd agenda Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Lleol ar gyfer gweithredu i helpu adeiladu cadernid ac adfywiad mewn cyngorau cymuned yn y cyfarfod diwethaf. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi taflen i helpu y Cyngor i annog cyfranogaeth yn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017. Cytunwyd i gyhoeddi y daflen ar safle We y Cyngor a rhoi copi ar Hysbysfwrdd y Cyngor ac yn Llyfrgell y dref.
- d. **Llywodraeth Cymru: uchafswm gwariant 2017-18**  
Derbyniwyd gohebiaeth dyddiedig 16 Rhagfyr 2016 yn nodi y byddai £7.57 yn swm priodol ar gyfer 2017-18 at ddibenion adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (Deddf 1972) ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru.  
Roedd Adran 137 (1) o Ddeddf 1972 yn caniatáu i Gyngor Cymuned neu Tref wario ar weithgarwch nad oedd ganddo bwerau penodol yn ei gylch, os y byddai y Cyngor yn ystyried bod y gwariant o fudd uniongyrchol i'r ardal, unrhyw ran ohonni, rhai o'r trigolion neu'r holl drigolion, cyn belled â bod y gost yn gyson â'r budd. Roedd Adran 137(3) o'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i Gyngorau Cymuned a Thref wario at ddibenion elusennol ac eraill penodol ac, yn y ddau achos, yr uchafswm y gellid ei wario o dan adran 137 (1) ac (3) ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 oedd £7.57 am bob etholwr., Cytunwyd i gyfeirio yr ohebiaeth yma i'r Is-Bwyllgor Cyllid.
- e. **Cyngor Gwynedd Praesept 2017-18**  
Nodwyd bod cais wedi dod oddiwrth Cyngor Gwynedd i ddarparu y manylion am benderfyniad y Cyngor Tref ar gyfer praesept 2017/18 – Roedd y Cyngor eisoes wedi trafod hyn a phenderfynnu cadw y praesept ar yr un lefel ac eleni, sef. £34,000.

**f. Cyngor Gwynedd – ad-dalu costau Llwybrau**

Nodwyd bod llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr 2016 wedi dod i lawr yn holi am ad-daliad gwaith sydd wedi ei ymgymeryd ar llwybrau categori un neu ddau yn unig, ac yn disgwyl i'r Cyngor ddangos cost unigol i bob llwybr er mwyn galluogi cyfrifo'r cyfanswm a oedd yn berthnasol ...Yr uchafswm roedd Cyngor Criccieth yn medru hawlio eleni oedd £487.79. (ar gyfartaledd roedd y Cyngor wedi derbyn tliad o £650 y flwyddyn o 2011/12 tan 2015/16 =£3251). Cytunwyd y dylid danfon llythyr ymateb i Cyngor Gwynedd gyda'r taliadau sydd wedi eu gwneud, gan nodi nad oedd cost unigol ar gyfer bob llwybr.

**g. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Digwyddiad Trafod Bwrdd 26 Ionawr 2017 Llandudno**

Nodwyd bod gwahoddiad i ddigwyddiad trafod bwrdd crwn ar fframwaith Panel Annibynnol Cymru o gydnabyddiaeth ar gyfer cyngorau cymuned a thref. Bydd y trafodaethau pwysig yma yn galluogi'r Panel i sicrhau bod ei fframwaith cydnabyddiaeth ariannol yn addas i anghenion cyngorwyr cymuned a thref, yn enwedig ar adeg pan mae llawer o newidiadau yn effeithio ar y sector yn ehangach a chynghorau cymuned a thref yn wynebu ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau. Cytunwyd y dylai'r Is-Gadeirydd a'r Clerc fynychu y digwyddiad yma.

**h. Llywodraeth Cymru – Adolygiad o Ddyfroedd Ymdrochi yng Nghymru 2017**

Nodwyd bod ymgynghoriad ar ddynodi Traeth Glan Don Beach, Gwynedd yn ddŵr ymdroch. Roedd hwn allan o ddalgylch y Cyngor. Roedd y Cyngor yn falch i nodi statws Baner Las Criccieth.

**7-01/17: Ceisiadau Cynllunio**

- a. C16/1604/35/LL Codi estyniad i'r Ganolfan Iechyd Stryd Fawr, Criccieth, Gwynedd LL52 ORR

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad a chefnogaeth.

- b. C16/1394/35/AM Cais amlinell i adeiladu 3 caban gwyliau Mynydd Ednyfed Fawr Criccieth LL52 OPH – Roedd llythyr wedi dod i law yn gofyn i'r Cyngor ail ystyried ei penderfyniad

Penderfyniad: Yn unol â rheolau sefydlog y Cyngor esboniodd y Cadeirydd nad oedd modd i'r Cyngor ail ystyried ei penderfyniad nôl ym Mis Tachwedd 2016 i wrthwynebu y cais yma, gan :

-nad oedd chwech mis wedi mynd heibio ers y penderfyniad ac nad oedd newid sylweddol iddo.

- nad oedd cynnig arbennig ysgrifenedig wedi dod gerbron gan naw cynghorydd.-

#### **8-01/17. Ceisiadau am gyfraniadau ariannol**

- a. **Marie Curie** – penderfyniad i beidio rhoi cyfraniad.
- b. **British Red Cross** – penderfyniad i beidio rhoi cyfraniad
- c. **Neuadd Goffa Criccieth** – penderfyniad i barhau i gyfrannu £5,000.
- d. **Mynwent Newydd Llanystumdwy** – penderfyniad mewn egwyddor i gyfrannu ac i holi am fanylion pwy sy'n rheoli y fynwent.

#### **9-01/17: Grŵp Llywio Cynllun Gweithredu a Phrosiectau; Cyfarfod**

Nodwyd nad oedd cyfarfod pellach wedi bod o'r Grŵp Llywio ond nodwyd bod Cerys Thomas yn barod i ddod i'r cyfarfod nesaf. Cytunwyd y dylid trefnu cyfarfod ym mis Ionawr ac y byddai y Clerc yn cysylltu gydag aelodau y Grŵp Llywio i gadarnhau y dyddiad.

Cytunwyd hefyd y dylid gwahodd Llewelyn Rhys o Arloesi Gwynedd i gyfarfod priodol o'r Grŵp Llywio'r i son am waith y sefydliad a trafod sut y medr Cyngor Criccieth ddefnyddio yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer y Cynllun Gweithredu.

#### **10-01/17: Goleuadau Nadolig**

Roedd y Cyngor wedi cytuno mewn cyfarfodydd blaenorol i drafod ymestyn y goleuadau Nadolig yn y dref ar gyfer 2017. Cyflwynodd y Cadeirydd gynllun diwygiedig ar gyfer ystyriaeth.

Penderfynwyd gofyn am amcan bris ar gyfer y gwaith yma gan y trydanwyr sy'n gwneud gwaith i'r Cyngor.

Cytunwyd hefyd y byddai y Cyngor yn barod i dalu am oleuadau Nadolig tu allan i siopau y dref er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y brif stryd.

Penderfynwyd y dylai y Clerc godi y mater ymae gydag Ysgrifennydd Croeso Dolig.

#### **11-01/17: Llwybr o Benaber i'r parc**

Nid oedd gwybodaeth bellach wedi dod i law oddiwrth Cyngor Gwynedd.

#### **12-01/17: Torri gwair yn y dref**

Nodwyd bod y Cyngor wedi derbyn y costau ar gyfer torri gwair gan Cyngor Gwynedd yn y cyfarfod diwethaf. a bod y Clerc yn aros am ymateb i'r cwestiwn godwyd ynglŷn â nifer y toriadau yn yr ardal goch – sef yr ardal blaenoriaeth.

Cytunwyd i gael pris gan bedwar o gontractwyr ar gyfer un toriad yn yr ardaloedd coch a gwyrdd er mwyn medru penderfynnu ar y ffordd gorau ymlaen.

### **13-01/17 Hysbysfwrdd y Cyngor**

Nodwyd bod angen gwaith cywiro cefn yr Hysbysfwrdd. Cytunodd y Cynghorydd Henry Jones ymgymeryd â'r gwaith yma a diolchwyd iddo am ei barodrwydd i wneud hynny.

### **14-01/17: Llyfrgell Criccieth ac offer a gedwir yn yr adeilad presennol**

Doedd dim rhagor o wybodaeth wedi dod di law. Nodwyd bod y Cadeirydd yn paratoi rhestr o eiddo y Cyngor.

### **15-01/17: Llwybrau cyhoeddus**

- Nid oedd gwybodaeth bellach wedi dod i law oddiwrth Cyngor Gwynedd am waith i drin y llwybr.
- Nodwyd bod Mr Huw Prydderch Davies wedi addo ailwynebu y sgwar ger yr orsaf ac ei fod wedi gofyn am ddyddiad cyn gynted â phosib i gwblhau y gwaith gan y contractwr.

### **16-01/17 Caeëdig: Cynllun Pensiwn**

Nodwyd bod y Clerc yn trafod gydag ymgynghorydd er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn dilyn y broses gywir a osodwyd gan The Pensions Regulator a bod pob dim ar trac i gwblhau y broses er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio i'r rheolau.

### **17-01/17: Derbyniadau**

Dim

### **18-01/17: Taliadau**

• Cyllid y Wlad (PAYE) Hydref	£76.60	(siec 101036)
• Cyflog y Clerc (Hydref)	£306.70	(siec 101037)
• Atkins Groundworks Gosod Coeden Nadolig	£477.60	(siec 101038)
• RJ Electrics Goleuadau Nadolig	£2632.68	(siec 101039)
• RJ Electrics Trwsio Arddangosfa Santa	.....£157.38	(siec 101040)

Rhoddyd ganiatad i'r clerch i dalu'r biliau.

### **19-01/17: Ceisiadau Cynllunio**

*Ceisiadau a dderbyniwyd ar ôl cyhoeddi y rhaglen, ac sydd angen sylwadau erbyn 24 Ionawr 2017:*

- a. C16/1619/35/CR Gwaith trosi ardal storio i 4 ystafell wely George IV Hotel 23-25, Stryd Fawr, Criccieth, LL52 OBS  
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad
  
- b. C16/1684/35/LL Cais ar gyfer codi 5 tŷ yn cynnwys un fforddiadwy White House, Radcliffe Road, Criccieth Gwynedd LL52 0LB  
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

*Cais a dderbyniwyd ar ôl cyhoeddi y rhaglen, ac sydd angen sylwadau erbyn 26 Ionawr 2017:*

- c. C16/1682/35/LL Cais ar gyfer dymchwel ac ail godi tŷ yn lle ei estynnu yn unol â C15/0429/35/LL Llwyn Madyn, Muriau Criccieth LL53 ORU  
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

---

Daeth y cyfarfod i ben am 8.42 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref **nos Lun 13 Chwefror 2017**.

**\*\*Bydd y rhaglen yma yn cau 4 Chwefror 2017\*\***